# CYLCHLYTHYR
# Y
# PENNAETH

RHAGFYR

2022

# Rhagfyr 2022

# Estyn yn canmol

## Ysgol Uwchradd Bodedern

Estyn

Braf oedd cael croesawu Arolygwyr ei Fawrhydi i'r ysgol ddechrau Hydref.  Yn ystod yr wythnos bu deg o arogylwyr yn treulio amser gyda ni.

Diolch i bawb am fod yn rhan o'r wythnos, gan gynnwys cwblhau holiaduron a chyfarfodydd gyda'r arolygwyr.

Bydd yr adroddiad ar gael o 12fed o Ragfyr ymlaen.

> "Cymuned ofalgar yw Ysgol Uwchradd Bodedern sydd yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o gynhwysiant, parch a chodi dyheadau.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn falch o fod yn rhan o 'deulu Ysgol Boded' ac yn teimlo eu bod yn ffynnu mewn ethos hapus a diogel."

# Yr Adroddiad

Mae 5 rhan i'r adroddiad sef:

1) Dysgu, 2) Lles ac Agweddau at Ddysgu, 3) Addysgu a Phrofiadau Dysgu 4) Gofal, Cymorth ac Arweiniad a 5) Arweinyddiaeth a Rheolaeth.

Dyma enghreifftiau o ganmoliaeth Estyn:

> “Mae lles disgyblion yn gryfder clir yn Ysgol Uwchradd Bodedern. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn eithriadol o falch o berthyn i "deulu Ysgol Boded", ac yn ffynnu yn yr ethos hapus, diogel, a gofalgar sydd wedi ei sefydlu. Mae teimlad cryf o gyfeillgarwch a chydweithio rhwng disgyblion. Teimla llawer o ddisgyblion eu bod yn cael eu parchu a'u trin yn deg, ac yn eu tro, maent yn arddangos lefel uchel o ymddiriedaeth a pharch at yr ysgol, eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr.”

> “Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn rhydd rhag camdrin corfforol a geiriol. Maent yn cydnabod bod oedolion yn yr ysgol yn gofalu am eu lles ac maent yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt bryderon. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hapus yn yr ysgol ac yn hyderus y bydd unrhyw faterion yn ymwneud â bwlio yn cael eu trin yn gyflym, yn effeithiol ac yn sensitif.”

Mae bron pob disgybl yn deall disgwyliadau'r ysgol o ran ymddygiad.  Caiff disgyblion eu cymell gan systemau gwobrwyo'r ysgol i wella'u presenoldeb, prydlondeb, ymgysylltiad a chynnydd.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu.  Mae llawer o ddisgyblion yn ymroi'n ddiwyd mewn gwersi ac yn dangos dycnwch a dyfalbarhad.  Maent yn gweithio'n annibynnol ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a'u cynnydd.

"Mae Ysgol Uwchradd Bodedern yn gymuned ofalgar, lle mae diwallu anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion yn flaenoriaeth.  O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr parchus sy'n falch o'u cymuned."

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y chweched dosbarth yn dangos aeddfedrwydd, annibyniaeth ac uchelgais. Teimlant eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan yr ysgol a'u bod yn barod ar gyfer y dyfodol.

Mae rhan fwyaf o athrawon yn meithrin perthnasoedd gwaith buddiol â'r disgyblion gan sefydlu naws gartrefol yn y gwersi.  Mae ganddynt arferion defnyddiol sy'n sicrhau bod disgyblion yn setlo'n gyflym a ddechrau'r wers ac yn barod i ddysgu.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n diwallu anghenion bron pob disgybl.

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer cwricwlwm newydd yr ysgol sydd yn seiliedig ar sicrhau addysg o'r ansawdd gorau, codi dyheadau a pharatoi disgyblion ar gyfer byd gwaith.

Mae trefniadau ar gyfer cefnogi ymddygiad disgyblion yn gadarn ac mae'r staff yn mynd i'r afael ag unrhyw ymddygiad annerbyniol yn gyflym.  O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn yn eu gwersi ac gwmpas yr ysgol.  Trwy wrando ar ddisgyblion, mae'r ysgol wedi adnabod yn dda'r heriau cymdeithasol maent yn eu hwynebu.

Nodwedd gref yw'r cyngor ac arweiniad gwerthfawr ar yrfaoedd i helpu disgyblion wneud dewisiadau am eu dyfodol.  Mae'r ysgol yn trefnu nosweithiau agored a sesiynau blasu sy'n bodloni diddordebau disgyblion yn dda ac yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol am ystod o yrfaoedd, gan gynnwys gyda chyflogwyr lleol.

Rydym yn diolch i Estyn am eu gwaith a'r adroddiad sydd hefyd yn adnabos meysydd i'w datblygu eto.  Rydym yn cytuno ac yn derbyn rhain yn llawn.  Byddwn yn rhannu gyda chi yn fuan eich cynlluniau ar gyfer camau nesaf yr ysgol tuag at sicrhau rhagoriaeth ymhob maes o'n gwaith.

# PROSIECT ALUMNI
# Apêl i Gyn-Ddisgyblion Boded

Dyma gynllun ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru.  Mae'n bleser gennym dderbyn y gwahoddiad hwn a chymryd rhan yn y prosiect Cenedlaethol yma.

*Wnaethoch chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod fynychu Ysgol Uwchradd Bodedern?  Byddem yn gwerthfawrogi eich cymorth i ysbrydoli myfyrwyr presenol i ddod yn fwy hyderus, brwdfrydig ac ysbrydoledig am eu gyrfaoedd yn y dyfodol.*

Mae ymchwil helaeth sy'n amlygu'r manteision i fyfyrwyr o ymgysylltu ac efelychu cyflogwyr mewn ysgolion.  Yn eu hymchwil yn 2019, "Insights and Inspiration: Exploring the Impact of Guest Speaker in Schools" - adroddodd yr elusen Education for Employers:

* Dywedodd 91% o'r myfyrwyr a arolygwyd fod ganddynt lefelau uwch o gymhelliant, dealltwriaeth o yrfaoedd a hunangrêd ar ôl gwrando ar siaradwyr gwadd cyflogwyr.
* Dywedodd 88% o fyfyrwyr eu bod wedi cael cymorth i ddeall bod angen i bawb oresgyn anhawsterau wrth geisio cyflawni eu nodau gyrfa.
* Roedd myfyrwyr nad oeddent yn gallu cofio unrhyw gyfarfyddiadau â chyflogwyr bum gwaith yn fwy tebygol o gredu bod eu cefndir yn eu hatal rhag cyflawni eu huchelgais.
* Roedd myfyrwyr prydau ysgol am ddim (PYD) fel arfer wei elwa'n fwy na myfyrwyr nad oeddent yn PYD.

*Mae ymchwil hefyd yn dangos bod ymgysylltu â cyflogwyr a fynychodd yr un ysgol, ac a brofodd rwystrau tebyg i fyfyrwyr presennol, hyd yn oed yn fwy gwerthfawr.*







Drwy ddod yn rhan o'r gymuned Alumni yn Ysgol Uwchradd Bodedern ac yn dibynnu ar faint o amser yr hoffech chi ei roi, gallwch gefnogi'r ysgol a'i disgyblion mewn amrywiaeth o ffyrdd:

*Rhoi sgwrs i grwp bach o ddisgyblion am eich gyrfa neu eich diwydiant
* Rhoi cyflwyniad i grwp mawr o ddisgyblion neu mewn diwrnodau agored neu ddigwyddiadau arbennig
*Cynnal ymweliad ar gyfer grwp o ddisgyblion yn eich gweithle
* Ymuno â gwers pwnc penodol i siarad am sut mae'r pwnc yn berthnasol i'ch gwaith
* Cynnal lleoliad profiad gwaith ar gyfer disgybl yn eich gweithle
* Ffilmio vlog am eich profiadau o'r ysgol a'ch gyrfa hyd yma
* Mynychu ffug gyfweliadau neu gefnogi Gwyl Yrfaoedd.

Gallwch gysylltu efo arweinydd y prosiect: Heidi Purnell ar 07890 274901 neu heidi.purnell@careerswales.gov.wales
neu mae croeso i chi gysylltu efo'r Ysgol.  Fe fyddai'n wych cael creu cyfres arall o'n fideo poblogaidd "Os fedra i .... Mi fedri di"

# BUDDSODDI ER MWYN GWELLA

Yn dilyn llwyddiant ysgubol y pod gweini bwyd, a gyda chymorth Cyngor Ynys Môn rydym yn cynllunio i barhau i wella profiadau amser egwyl a chinio y disgyblion.

Mae'r gwaith o gwblhau'r canopi mawr wedi ei gwblhau a'r cam nesaf fydd buddsoddi mewn rhagor o fyrddau picnic.





Y canopi newydd ger y pod bwyd newydd a man cysgodol newydd ar gyfer disgyblion sy'n ciwio am ginio.






# CLYBIAU BODED

Mae ein clybiau gweithgareddau allgyrsiol yn hynod boblogaidd, ac mae'r adroddiad gan Estyn yn canmol hynny hefyd. Diolch i bawb sy'n cyfrannu i sicrhau eu llwyddiant.

Un datblygiad cyffrous iawn ar y gweill ydy ein bod wedi penodi Swyddog Rygbi i'r ysgol. Mae'r swydd yn bartneriaeth rhwng Ysgol Uwchradd Bodedern, Ysgol Gyfun Llangefni, Clwb Rygbi Llangefni ac Undeb Rygbi Cymru. Fel rhan o'r bartneriaeth bydd y swyddog Datblygu Rygbi yn gweithio yn YUB ddau ddiwrnod a hanner yr wythnos. Bydd rygbi yn Boded yn mynd o nerth i nerth!




Cofiwch am gyngerdd Nadolig yr ysgol nos Fercher yma 14/12/22 am 7pm yn Theatr yr Ysgol. Mae croeso i bawb ddod i fwynhau ysbryd y Nadolig efo ni!

# Dyddiadau Pwysig i'r Calendr

**Dydd Gwener, 23 Rhagfyr - Dydd Sul, 8 Ionawr - GWYLIAU NADOLIG**

**Dydd Llun, 9 Ionawr 2023 - Ysgol yn ail-agor i bawb**

**Nos Fawrth, 17 Ionawr - Noson Rieni Blwyddyn 12 ac 13**

**Nos Fawrth, 7 Chwefror - Noson Rieni Blwyddyn 9**

**Dydd Gwener - 17 Chwefror - HMS - dim ysgol i'r disgyblion**

**Dydd Llun 20 Chwefror - Dydd Gwener 24 Chwefror - GWYLIAU HANNER TYMOR**

